

taith cerdded

HIRAETHLYN

walk

ehangwch eich gorwelion...
broaden your horizons...



- Golygfeydd gwych
- Taith gylchol



- Great views
- Circular walk



GWYBODAETH AM Y DAITH

Taith o gwmpas pentref Eglwys Bach gyda golygfeudd da o'r dyffryn a'r Carneddau.

Tirwedd: hawdd i'w gerdded, dau ddringfa serth

Pellter: 5 cilometr, 3.5 milltir

Amser: tua 2 awr

Llwybrau: llwybrau trwy gaeau, traciau a ffyrdd B. Camfeydd a giâtiau.

Cŵn: dylid cadw cŵn ar dennyn

Cyfeirnod grid dechrau a gorffen: SH 803702

Map: Explorer OL17

Lluniaeth: i'w cael yn y siop leol a'r tafarnau

SUT YDW I'N MYND YNO?

Efo trên: Mae yna arhosfan ar gais yn Nhal-y-Cafn ar reilffordd Dyffryn Conwy. www.conwyvalleyrailway.co.uk

Efo bws: Ffôn: Traveline Cymru 0871 200 22 23
www.traveline.cymru

Efo car: Dilynwch yr A470 nes gyrhaeddwch troad am gerddi Bodnant a Eglwys Bach.

RHAGOR O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

Am ragor o wybodaeth a thafenni ar amrywiaeth o wahanol deithiau cerdded: ewch i: www.conwy.gov.uk/teithiaucerdded

Ebost: affch@conwy.gov.uk

Ffôn Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau: 01492 575337

Am gopi o'r llyfryn hwn mewn print mawr ffoniwch 01492 575337

WALK INFORMATION

A circular walk around the village of Eglwys Bach with good views of the valley and the Carneddau mountains.

Terrain: easy to walk, with two steep gradients

Distance: 5 kilometres, 3.5 miles

Time: approx 2 hours

Paths: field paths, tracks and B roads. Stiles and gates.

Dogs: dogs should be kept on a lead

Start and finish grid reference: SH 803702

Map: Explorer OL17

Refreshments: available in local shop and pubs

HOW DO I GET THERE?

By train: There is a request stop at Tal-y-Cafn on the Conwy Valley line. www.conwyvalleyrailway.co.uk

By bus: Tel: Traveline Wales 0871 200 22 23
www.traveline.cymru

By car: Follow the A470 to the turning for Bodnant gardens and Eglwys Bach.


MORE WALKS IN CONWY

For information and leaflets on a variety of walks: visit: www.conwy.gov.uk/walks

Email: erf@conwy.gov.uk

Environment, Roads & Facilities tel: 01492 575337

For a large print copy of this booklet please call 01492 575337



© Hawflaint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Ardalwg Ordname 100023380
Map hysbysu ac amodau'n gynllunio a defnyddio'r data hwn
© Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.


Rhoddid trwydded datgymysgwad nad y'n gyfyngedig, heb freiniad, i chi well y Data Trwyddedig ar gyfer defnyddiadau personol yn unig, o'r cychwyn i'w defnyddio ar gais gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ni cheirwch goslo, se-dwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu' ll anall ddefnyddio'r Data Trwyddedig ar gais mewn unrhyw ffurfi drydydd partion, a Neillturf hawliau trwydded parti i orfodi telerau'r drydded hon i'r Ardalwg Ordname.
You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.

1 Mae'r llwybr yn cychwyn o ysgol y pentref. Ewch yn eich blaen o'r ysgol ar hyd y stryd fawr a heibio tafarn y Bee Inn ar eich ochr dde. Trowch i'r dde ar hyd Maes Llan, at y ffordd bengaead, trwy'r giât a thros y bont. Croeswch ddau gae gan anelu at wrych sy'n mynd yn syth i fyny'r llethr, gan ddod allan i lôn ar y top. Cymerwch hoe fach i edmygu'r golygfeydd rhagorol o'r pentref ac o'r dyffryn, ble byddwch yn cerdded yn y man.

2 Ewch i'r dde ac i fyny'r lôn. Wedi pasio ychydig o dai, ewch dros y gamfa ar y chwith a cherddwch i fyny'r llwybr coediog. Wedi camfa arall, ewch yn eich blaen, gan gadw i'r chwith drwy'r coed ac yna i gae gan anelu am giât yn y gornel chwith sy'n arwain i'r cae nesaf. Yma gwelwch fferm Pen y Bryn. Cyn cyrraedd y fferm trowch i'r chwith drwy giât at drac. Dilynwch y trac drwy'r fferm, drwy ddwy giât ac yna un giât arall i drac a gwrychoedd ar ei hyd. Dilynwch y trac. Gan ddilyn yr arwydd trowch i'r chwith i lawr cae gyda'r nant ar y dde. Ewch dros y gamfa a dilynwch y llwybr o amgylch y coed gan gadw i'r dde drwy dair giât arall tan gyrraeddwch ar y lôn.

1 From the school proceed along the main street through the village passing the Bee Inn on your right. Take the next turning to your right along Maes Llan, to the cul-de-sac, go through the gate and over the bridge. Cross two fields, aiming for a hedge running straight up the slope, emerging on the lane at the top. Take a breather and admire the excellent views of the village and across the valley where you will be walking later.

2 Head right up the lane. After passing a few houses, cross over a stile on your left and walk up a wooded track. After a further stile, bare left through the trees, and then through a field aiming for the far left corner to a gate into the next field. From here you will see the farm Pen y Bryn. Just before the farm take a left turn through a gate and onto a track. Follow the track through the farm, through two gates and a further gate onto a hedge-lined track. Continue down along the track. Following the waymarker turn left down the field with the stream to your right. Cross over the stile, skirting the trees, keep right through three further gates to emerge on the lane.



Allwedd / Key

- Llwybr / Route
- Golygfan / Viewpoint
- Gwybodaeth / Information
- Parcio / Parking
- Safle bws / Bus stop
- Toiledau / Toilets
- Adeiladau / Buildings
- Ardaloedd adeiledig / Built up areas
- Eglwys / Church
- Coetir / Woodland

3 Ewch yn syth ar draws y lôn trwy ddwy giât i fyny llwybr rhwng gwrychoedd. Anelwch yn groeslinol am y polyn telegraff uchaf ar draws y cae. Ewch drwy'r giât i'r cae nesaf gan lynu ar y chwith anelwch am giât arall a fydd yn eich arwain i'r lôn lle gwelwch gapel Bryn Daionyn. Trowch i'r chwith i lawr yr alit i bentref bach Y Graig. Ewch yn eich blaen gan gymryd y lôn ar yr ochr dde efo'r 'Sun' ar eich ochr chwith. Ewch ar hyd y lôn, dros bont gefngrwm a heibio Dell Bodnant ewch yn eich blaen a heibio Ysgubor Ddegwm hynafol ar eich ochr dde.

3 Go straight across the lane up a 'hedge alley' and through two gates. Head diagonally across the field aiming for the top telegraph pole. Go through the gate into the next field, keeping to the left boundary aim for another gate which takes you onto a lane where you will see a chapel -capel Bryn Daionyn. Turn left down the lane to the hamlet of 'Y Graig'. Continue, taking the right hand lane with 'The Sun' on your left. Walk along the lane, over a hump bridge and past at The Dell at Bodnant. Continue past the Tithe Barn on your right.

4 Cyn i gyrraedd fferm a throad yn y ffordd, trowch i'r chwith i lawr trac. Efo coedlan Bryn Hir ar eich ochr dde, dilynwch y trac heibio'r coed, ac ar hyd y man lle mae afonydd Hiraethlyn a Charrog yn uno. Ewch dros ddwy bont yn ôl i'r brif lôn drwy'r pentref. Yma gwelwch Yr Efail. Trowch i'r dde ar y brif ffordd heibio Eglwys Martin Sant gan ddilyn y lôn yn ôl i'r man cychwyn.

4 Just before you reach a farm and a bend in the road turn left onto a track. With Bryn Hir wood to your right follow the track past the woods, along the confluence of the rivers Carrog and Hiraethlyn, over two bridges back to the main road through the village where you will see The Smithy. Turn right onto the main road past St. Martin's Church and follow the road back to the starting point.

© Heralftaint y Goron a hawliau corfforaidd ddata 2016 Anelwy Ordnans 100023380
Mapiau Wexau ac amodau'n golygfeydd a golygfeydd ddata
© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions

Ar un adeg, roedd pum tafarn yn y stryd, sy'n rhoi syniad go dda pa mor brysur oedd y pentref. Y 'Bee Inn' yw'r unig dafarn sydd wedi goroesi, hefyd, roedd yn fferm tan yr 1950'au. Mae'r adeilad presennol yn dyddio'n ôl i 1876 ac yn sefyll ar safle'r adeilad gwreiddiol a oedd â tho gwellt. Gall y brif stryd ymddangos yn ddiffaith heddiw. Ond fedrwcw chi ddychmygu'r golygfeydd yn y dyddlau a fu? Mai yr 11eg oedd diwrnod Ffair y Gweision Cyflog. Roedd y stryd yn llawn o stondinau a labrwr yn cynnig eu hunain i'w cyflogi gan ffermwyr lleol am y flwyddyn i ddod.



Bee Inn

There were at one time five public houses in the street which indicates how busy the village was. The Bee Inn is the only surviving public house, it was also a farm until the 1950's. The present building dates from 1876 and replaces the original building which had a thatched roof. The main street may seem deserted today. Can you imagine the scenes of days gone by? May the 11th was the day of the Hireling Fair. The street was lined with stalls and labourers offered themselves for hire to local farmers for the coming year.

Eglwys Martin Sant
St Martins church



As you approach the road, in front of you is 'The Smithy' which dates back to the 17th century. Excellent wrought ironwork and repairs to farm machinery has been carried out here. St. Martins Church dates from 1837. Can you see two round headed windows towards the back of the church? These date from an earlier church. There has been a church on this site since the 13th century.

Wrth i chi agosáu at y ffordd, fe welwch Efail o'ch blaen sy'n dyddio'n ôl i'r 17eg ganrif. Arferid gwneud gwaith haearn gyr ardderchog yma a gwaith trwsio peiriannau fferm.

Mae'r Eglwys Martin Sant yn dyddio'n ôl i 1837, Fedrwcw chi weld dwy ffenestr bengrwn tuag at gefn yr eglwys? Mae'r rhain yn dyddio o eglwys gynharach. Mae eglwys wedi bodoli ar y safle hwn ers y 13eg ganrif.

Mae coed Bryn Hir yn goetir cymysg sy'n cynnwys llarwydd, derw, pîn a phyrwydd wedi eu hamgylchynu gan rododendron. Beth fedrwcw chi ei ogleuo? Mae yna nifer o flodau yn y coed ar gwyrchoedd, yn enwedig garleg gwyllt. Yn yr haf, fedrwcw chi weld y blodau bach pinc pig yr aran loyw a bodau lliw hufen dail y gron ar hyd y trac. Yn yr hydref, mae'r perthi cyll sy'n tyfu o boptu'r llwybr yn darparu digonedd o gnau collen; ffynhonnell ragorol o fwyd i'r gwiwerod llwyd sy'n byw yn y coed. Mae'n bosib y medrwcw weld adar fel telor y coed a'r tingoch yn y gwanwyn a'r haf. Fel yr ydych yn cerdded a fedrwcw glywed cri y bwncath? Mae'r aderyn yma yn nythu yngh Nghoed Bryn Hir.

Coed Bryn Hir Woods



Bryn Hir wood is a mixed woodland comprising of larch, oak, pine and spruce underplanted with many rhododendrons. What can you smell? There are many flowers in the woods and hedgerows in particular wild garlic. In summer, can you spot the small pink flowers of the shining cranesbill and the cream flowered wall pennywort along the track? Hazel hedges border the track. In autumn the nuts are a good source of food for the grey squirrel. Birds such as the wood warbler and redstart maybe seen here in spring and summer time. As you walk can you hear the cry of the buzzard? These birds nest in coed Bryn Hir.

Mae'r sgubor degwm hon yn dyddio'n ôl i 1799. Yn y gorffennol, roedd rhaid i ffermwyr roi un rhan o ddeg o'u cynnyrch i'r eglwys a dyma lle'r oedd y cynnyrch yn cael ei gadw.



Sgubor degwm
Tythe barn

This tythe barn dates from 1799. In the past farmers had to give a 10th of their produce to the church and this is where it was stored.

Dyma lle mae'r afon Hiraethlyn yn llifo o'r 'Glyn' enwog ym Modnant cyn ymuno efo afon Conwy. Fedrwcw chi weld unrhyw adar neu fywyd gwyllt? Efallai y byddwch yn ddigon lwcus i weld crêyr glas, glas y dorlan neu bronwen y dŵr wrth ymyl y dŵr.



Y Glyn
The Dell

Here the Hiraethlyn river flows from the famous 'Dell' at Bodnant before joining the river Conwy. Can you spot any birds or wildlife? You may be lucky enough to spot a heron, kingfisher or dippers at the waters edge.